

Trosolwg o'r testun Beiblaidd



Ymryddhau oddi wrth ofn (12:22-31)

Mae Iesu'n dechrau trwy ddweud wrth y disgyblion i beidio â phoeni am fwyd, dillad na bywyd ei hun. Mae'n cyfeirio at liliau ac adar, gan ein hatgoffa bod yr un Duw sy'n gofalu am y greadigaeth yn gofalu fwy fyth am y praidd bychan. Pan fydd eglwysi yn cystadlu am adnoddau neu ddylanwad, mae balchder ac ofn yn cymryd yr awenau. Mae cydnabod bod Duw yn darparu ar gyfer pob adran o'i deulu yn ein rhyddhau i rannu yn hytrach na phentyrru – er enghraifft, trwy gyd-ariannu prosiectau allgymorth cymunedol, neu ond dathlu ein hamrywiol ddoniau heb eiddigedd. Mae ymryddhau oddi wrth ofn prinder neu ddirywiad yn caniatáu i eglwysi gydweithio ar geisio cyfiawnder cymdeithasol, efengylu ac addoli heb weld ei gilydd fel cystadleuwyr. Gall rhannu adeiladau ar gyfer addoli gyda chymunedau Cristnogol eraill a chynnig noddfa groesawgar i'r rhai nad oes ganddynt gartref gynnig rhagflas o'r undod cymodlon mewn amrywiaeth rydym yn gweddio amdano.

Cofleidio'r Deyrnas (12:32-34)

'Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan, oherwydd gwelodd eich Tad yn dda roi i chwi'r deyrnas.' Mae Iesu'n addasu ieithwedd frenhinol i'w gwneud yn wahoddiad: nid yw ein gwir drysor mewn adeiladau neu gyllidebau neu wleidyddiaeth, ond yn nheyrnasiad Duw – wedi'i ymgnewdoli mewn trugaredd, cyfiawnder a gofal dros ein gilydd. Mewn sefyllfaoedd eciwmenaidd, gall litwrgïau neu athrawiaethau gwahanol deimlo fel eu bod rywffodd yn cystadlu am hawl ar 'y Deyrnas'. Gall amrywiaeth o'r fath hefyd fod yn fendith. Mae canolbwyntio ar werthoedd cyffredin, megis lletygarwch, maddeuant a diakonia (yn y Roeg: gwasanaeth neu weinidogaeth ostyngedig a sylwgar), gyfeirio ein sylw oddi wrth ein traddodiadau neilltuol tuag at yr un realiti y'n gelwir i'w ymgorffori gyda'n gilydd.